

Bwletin yr Awdurdod - Mawrth 2003

CYFARFOD AGORED - ABERYSTWYTH

Fe gynhaliodd yr Awdurdod Gyfarfod Agored ar nos Iau, 27 Chwefror 2003 yn Aberystwyth lle bu rhyw 40 o bobl yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Cefin Campbell, Aelod o Awdurdod S4C, a bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

Chwaraeon

Holodd aelod o'r gynulleidfa os oedd gan S4C unrhyw gynlluniau i ddangos pêl-droed Cynghrair Cymru? Atebodd Huw Eirug fod *Y Clwb* ar ddydd Sul i fod i ddangos mwy na rygbi a chyfeiriodd i'r ffaith mai nid S4C oedd â'r hawliau i gemau pêl-droed Cynghrair Cymru, yn hytrach y BBC oedd yn berchen ar y rhain. Er hynny, dywedodd Huw Jones fod yn rhaid cydnabod nad oedd pêl droed Cymru mor atyniadol â gemau pêl-droed ar sianelau eraill. Felly, y gwirionedd oedd nad oedd darlledu gemau pêl-droed rhwng timau Cynghrair Cymru yn fyw yn ddeniadol i S4C gan ni fyddent yn denu niferoedd fawr o wylwyr. Roedd rhaglen o uchafbwyntiau o'r gemau yn fater arall ond yr oedd y rhain yn gostus i'w cynhyrchu. Tra roedd gemau rygbi clybiau Cymru o safon i gymharu gyda'r gorau, nid dyna oedd y sefyllfa gyda pêl-droed.

Gwnaeth aelod arall o'r gynulleidfa sylwad bod yna ormod o'r ffocws chwaraeon ar rygbi a pêl-droed, roedd llawer fathau eraill o chwaraeon yn haeddu sylw. Holodd person arall pam nad oedd yna sylw i chwaraeon merched. Dywedodd Huw Jones fod ganddo ymateb tebyg i'r hyn a ddywedwyd am bêl-droed Cynghrair Cymru, sef, nid oedd chwaraeon merched yn denu gwylwyr i wyllo. Roedd hyn yn wir am yr holl sianelau – heblaw am Wimbledon efallai, prin iawn oedd diddordeb gan wylwyr i wyllo chwaraeon merched.

Adlewyrchu Lleiafrifoedd

Holwyd beth oedd S4C yn ei wneud o ran adlewyrchu lleiafrifoedd ar sgrîn S4C. Teimlwyd nad oedd y Sianel yn gwneud hyn cymaint â sianelau eraill. Atebodd Huw Eirug fod S4C i ryw raddau yn rhoi sylw i leiafrifoedd yn ei rhaglenni. Roedd yna actorion du, er enghraifft, wedi ymddangos ar *Pobol y Cwm*. Roedd pobl o leiafrifoedd ethnig hefyd wedi ymddangos ar *Welsh in a Week*. Roedd S4C hefyd wedi ceisio rhoi llais i leiafrifoedd arddel eu safbwyntiau nhw. Er hynny, cydnabuwyd bod yna fwy o waith i S4C wneud ar hyn. Yn wir, roedd y Sianel wedi bod yn trafod y mater yma rhyw fis yn ôl ac yr oedd yn fwriad i weld sut gellid bod yn fwy proactif i geisio sicrhau bod yna lwyfan i bawb ar S4C. Ychwanegodd Huw Jones fod y Sianel wedi darlledu rhaglen ddiddorol yn ddiweddar ar Ramadan gan ddilyn dyddiadur fideo person mwslemaidd. Roedd rhaglen ar hiliaeth yng nghefn gwlad hefyd wedi'i darlledu. Yn ogystal, fel canlyniad i'r drefn addysg yn ystod y blynyddoedd diweddar, yr oedd nawr mwy a mwy o actorion du oedd yn gallu siarad Cymraeg yn dechrau amlygu eu hunain.

Ffilmiau

Soniodd aelod o'r gynulleidfa fod Huw Jones rhai blynyddoedd yn ôl wedi sôn am y bwriad i glustnodi arian ar gyfer datblygu ffilmiau a fyddai'n cael eu dangos mewn sinemâu yn gyntaf cyn eu darlledu ar S4C. Holwyd a oedd y nod hynny wedi'i gyrraedd. Atebodd Huw Jones nid oedd hyn wedi digwydd yn y modd a obeithiwyd. Yr oedd S4C wedi ceisio creu trefn i adnabod syniadau ar gyfer ffilm. Pan gwnaeth eu darganfod fe wnaethant gael eu dangos yn y sinema cyn cyrraedd y teledu ac yn wir yr oedd yna rai llwyddiannau wedi bod gyda ffilmiau megis *Y Mabinogi*, *Eldra*, *Solomon a Gaenor*, a *Chameleon*. Er hynny, y gwirionedd oedd ei bod hi'n anodd cael syniadau oedd ag unrhyw siawns o lwyddo yn y sinema heb wario symiau sylweddol o arian. Nid oedd modd cyflawni llawer ar gyllideb o £750,000 – roedd hyd yn oed £4 miliwn yn fach iawn i wireddu ffilm o sylwedd ac o safon. Gobeithiwyd yn fawr y byddai'r Gronfa newydd yr oedd y Cynulliad yn ei chefnogi yn rhoi cyfle newydd i greu ffilmiau, cronfa lle byddai S4C a chyrrff eraill, gobeithio, yn cyfrannu ati.

Technoleg Newydd

Holwyd am y defnydd o dechnoleg newydd ar gyfer cynhyrchu rhaglenni ac onid oedd hyn yn cynnig ffordd o wneud rhaglenni am lai o gost. Atebodd Huw Jones trwy ddweud bod llun a sain yn hanfodol i deledu ac nid oedd swyddogion y Sianel yn ymwybodol o ddatblygiadau ar hyn o bryd fyddai'n gostwng costau heb hefyd gostwng safon sain a llun. Yr oedd cynhyrchu rhaglenni am lai o brys yn rhywbeth yr oedd comisiynwyr S4C yn wynebu'n ddyddiol. Er hynny, gwahoddwyd unrhyw un â syniadau ar sut y gellid cynhyrchu rhaglenni yn rhatach ddod at y Sianel i'w trafod. Cydnabuwyd, er hynny, ei bod hi'n bwysig i'r Sianel gadw llygad ar ddatblygiadau yn barhaus.

Rhaglenni ar ôl 9.00pm

Awgrymwyd bod safon y rhaglenni roedd S4C yn eu darlledu ar ôl 9.00pm yn dirywio (hynny yw, y rhaglenni gan Channel 4 roedd yn darlledu). Atebodd Huw Eirug ei bod hi'n ddyletswydd statudol ar S4C, o safbwynt y sianel analog, i ddarlledu rhaglenni Cymraeg yn bennaf yn yr oriau brig gan yna ddarlledu rhaglenni Channel 4 ar brydiau eraill. Dyna felly pam roedd S4C wedi sefydlu ei sianel ddigidol, sef er mwyn iddi fedru darlledu rhaglenni Cymraeg o ganol dydd i ganol nos. Cyfeiriodd Huw Jones yn ogystal at y ffaith fod S4C ers ddechrau'r flwyddyn wedi newid rhywfaint ar ei hamserlen ac roedd nawr yn darlledu rhaglenni Cymraeg rhwng 9.00pm a 10.00pm.

Holwyd faint o'r gynulleidfa oedd yn medru derbyn gwasanaethau digidol ac fe welwyd bod tua hanner ohonynt a'r offer angenrheidiol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru lle'r oedd tua hanner y boblogaeth â'r modd i dderbyn gwasanaethau digidol.

Pobol y Cwm

Gofynnwyd pam yr oedd S4C wedi newid amser Pobol y Cwm. Nid yn unig oedd hi wedi newid yr amser ond roedd hefyd yn ddarlledu'r rhaglen ar wahanol amseroedd yn ystod nosweithiau'r wythnos. Atebodd Huw Eirug fod y newid yn yr amserlen wedi digwydd fel canlyniad i newid yn ymarferion gwylwyr y Sianel lle y mae eu cyfnod o wyllo teledu wedi symud yn hwyrach yn ystod y noson nag y buont ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd *Pobol y Cwm* yn un o raglenni pwysicaf y Sianel ac roedd S4C yn ymwybodol bod ganddi fwy o siawns i gael pobl i'w gwyllo yn hwyrach yn y nos. Roedd hi hefyd yn obaith y byddai gwylwyr yn aros gyda'r Sianel i wyllo'r rhaglenni a fyddai'n dilyn y sebon opera. Y rheswm

nad oedd *Pobol y Cwm* yn cael ei darlledu ar yr un amser pob noson oedd bod S4C yn dymuno osgoi gwrthdaro gyda *Eastenders* ar BBC a *Coronation Street* ar ITV.

Holwyd os oedd unrhyw un wedi peidio gwylio oherwydd y newid amser. Dangoswyd rhyw hanner dwsin o ddwylo – er daeth yn amlwg bod rhai o'r rhain wedi rhoi'r gorau i'r sebon opera ers rhyw dwy neu dair blynedd ac wedi dod allan o'r arferiad o'i gwylio erbyn hyn. Soniodd un aelod o'r gynulleidfa ei bod hi'n cadw anghofio pryd yr oedd *Pobol y Cwm* ymlaen gyda'r amseroedd darlledu anghyson. Dywedodd person arall bod yr amser 7.00 o'r gloch wedi bod yn gyfleus gan taw dyna pryd yr oedd yn eistedd i lawr i fwyta a gwylio ar ôl dod yn ôl o'r gwaith. Dywedodd rhywun arall er hynny na fyddai dim ots pa amser byddai'r Sianel yn ei darlledu gan ei fod yn tapio'r rhaglen beth bynnag ac yn ei gwylio pan yn gyfleus iddo. Daethpwyd â'r drafodaeth ar y pwnc yma i ben trwy atgoffa'r gynulleidfa bod *Pobol y Cwm* yn cael ei ail-ddarlledu am 6.00pm y noson ganlydol ar ddigidol.

Datblygu ar gyfer y Dyfodol

Holwyd sut yr oedd S4C yn bwriadu symud i'r dyfodol i ddatblygu pethau fel y We. Teimlwyd ei bod hi'n bwysig i S4C ddatblygu pethau fel hyn ar yr un pryd â sianelau eraill neu fe fyddai ar ei hôl hi. Dywedodd Huw Jones fod hyn yn fater yr oedd S4C wedi bod yn ei drafod. Er hynny, roedd y sefyllfa ddigidol a'r we yn gymhleth gan nid pawb oedd â'r rhain yn eu cartrefi. Felly, nid oedd modd rhoi holl arian y Sianel i'r cyfeiriadau hyn pan nid oedd pawb yn medru eu cael. Er hynny, roedd yn wir os nad oedd y Sianel yn datblygu nawr fe fyddai yn cael ei gadael ar ôl wrth i bobl eraill wedi symud ymlaen. Roedd felly'n rhaid mesur faint o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o safleoedd we. Roedd hi'n bwysig bod y rhain yn ychwanegu at y gwerth yr oedd pobl yn ei gael allan o raglenni. Yr agwedd yr oedd S4C yn ei gymryd oedd bod yn rhaid darganfod pethau a rhaglenni lle gellid defnyddio'r dechnoleg newydd mewn ffordd ddychmygol a chanolbwyntio ar y rheiny. Nid oedd modd gwneud hyn ar gyfer holl raglenni'r Sianel gan y byddai hynny'n golygu tynnu arian i ffwrdd o'r rhaglenni sy'n ymddangos ar y sgrîn. Roedd yn rhaid i S4C gredu bod teledu traddodiadol yn parhau i fod yn bwerus, wedi'r cyfan yr oedd teledu gan 98% o'r boblogaeth ac ni ddylid anwybyddu hynny. Teledu oedd y rheswm pam grëwyd S4C ac efallai fod angen ffynhonnell neu gronfa arall ar gyfer y ddarpariaeth o'r datblygiadau newydd hyn.

Ffigurau Gwylio

Holwyd os oedd yr amserlen newydd wedi denu mwy o wylwyr i S4C. Atebodd Huw Jones fod yr arwyddion cynnar yn gymysg. Yr oedd rhai rhaglenni wedi denu mwy nag y byddent cyn y Nadolig tra yr oedd yna raglenni eraill yr oedd y Sianel wedi gobeithio y byddent wedi denu mwy o wylwyr. Er hynny, roedd hi'n rhy gynnar i ffurfio unrhyw farn terfynol a roedd penderfyniad wedi'i gymryd cyn cyflwyno'r amserlen y dylid aros am gyfnod o ryw dri neu bedwar mis cyn adolygu'r sefyllfa. Roedd rhaid cofio hefyd bod y ffigurau gwylio yn deillio o sampl, a roedd rhaid bod yn ofalus rhag ystyried y rhain i fod yn wirionedd feiblaidd.

Soniodd aelod o'r gynulleidfa bod ffigurau *Pobol y Cwm* wedi gostwng i rywbeth fel hanner yr hyn yr oeddynt ryw saith mlynedd yn ôl. Cydnabuodd Huw Jones fod y ffigurau gwylio ar gyfer y sebon opera wedi gostwng dros y blynyddoedd ond roedd rhaid cofio bod sianelau fel ITV hefyd wedi dioddef gostyniadau tebyg. Roedd y byd aml-sianelog yn gyfrifol i raddau helaeth am hyn. Er hynny, yr oedd S4C wedi mabwysiadu'r arferiad o roi i wylwyr ail gyfle i wyllo ei rhaglenni ac yr oedd gweithredu fel hyn yn codi'r niferoedd oedd yn gwylio rhaglenni unigol. Roedd ymchwil yn dangos bod rhyw 740,000 o bobl yn gwylio S4C o leiaf unwaith yr wythnos.

Rhaglenni Pobl Ifanc

Soniwyd bod rhaglenni megis Jara a Rownd a Rownd yn plesio pobl ifanc, ond mynegwyd pryder ynglyn â rhaglenni ar gyfer plant ysgol, yn enwedig yr arferiad o gyfweld sêr a grwpiau pop Saesneg. Roedd yna bryder bod plant ifanc yn cael eu denu i ddiwylliant Saesneg. Gofynnodd Huw Jones os credwyd bod hyn yn digwydd yn gyson. Atebwyd ei fod ef gyda rhaglenni plant yn cyfweld â phobl fel Gareth Gates. Awgrymodd Huw Eirug mai efallai *Poptu* oedd yn cael ei gyfeirio ato a chydabuodd ei fod hi'n fwriad i'r rhaglen yma adlewyrchu diwylliant Cymreig ac Eingl-Americanaidd. Er hynny, buasai â diddordeb clywed pa raglenni eraill oedd yn gwneud hyn gan bod S4C yn ofalus iawn parthed y defnydd o Saesneg yn ei rhaglenni. Os oedd yna gred bod Saesneg yn ymddangos drwyddi draw rhaglenni ar gyfer plant fe fyddai hynny'n fater o bryder. Gwahoddwyd y person a gododd y mater yma i gysylltu â Huw Eirug ar ôl y cyfarfod i roi iddo esiamplau o'r hyn oedd yn cael ei gyfeirio ato.

Planed Plant

Holwyd ynglyn â'r diffyg o ddarpariaeth ar gyfer plant tair blwydd oed a phlant meithrin. Nid yw Planed Plant yn cynnig unrhyw beth iddynt yn y boreau. Atebodd Huw Eirug fod hwn, fel yr oedd yn digwydd, yn destun trafodaeth yn S4C ar hyn o bryd. Gofynnwyd pa amser fyddai'r gwr a gododd y pwynt yn dymuno gweld y fath raglenni yn cael eu darlledu ac fe atebodd 'rhwyng 7.00am a 9.00am'. Gofynnwyd a fyddai darpariaeth yn ystod yr oriau yma yn yr wythnos yn fwy pwysig na darpariaeth ar y penwythnos ac atebwyd y byddai. Nodwyd y farn a mynegwyd a soniwyd bod y mater yma dal i fod o dan drafodaeth yn S4C.

Comedi

Gofynnwyd i le'r oedd comedi wedi mynd ar y Sianel. Atebodd Huw Eirug ei fod yn gofyn yr un cwestiwn i'w hun. Roedd yn wir bod y Sianel wedi bod yn methu yn y genre yma. Cyfeiriodd at ddwy gyfres newydd a gyflwynwyd y llynedd sef *Naw tan Naw* a *Bob a'i Fam*. Nid oedd y gynulleidfa â llawer o feddwl o'r rhain, yn arbennig felly *Bob a'i Fam*. Cyfeiriodd aelod arall o'r gynulleidfa yn ôl at gyfresi comedi llwyddiannus yn y gorffennol a pham nad oedd y rhain yn cael eu hail-ddangos. Atebwyd bod hyn yn digwydd, ond roedd yn hawdd i edrych yn ôl i'r gorffennol - y sialens oedd i edrych i'r dyfodol a chyflwyno cyfresi newydd llwyddiannus. Wedi dweud hyn, yr oedd yna gomedi i weld ymhlith rhaglenni drama S4C, er enghraifft, roedd elfennau o fewn *Amdani* a hefyd o fewn *Fondue*, *Rhyw a Deinasors*. Serch hyn, roedd yn bwysig fod yn S4C dal ati i geisio gael llwyddiant yn y maes yma.

Holodd aelod o'r gynulleidfa os bosib fod yna rywun yng Nghymru yn gallu ysgrifennu comedi. Atebodd Huw Eirug fod ysgrifennu comedi yn grefft anodd iawn ond roedd yn gyfrifoldeb ar S4C i barhau i edrych am bobl oedd yn gallu ymgymryd â'r dasg arswydus yma. Dylid hefyd cydnabod bod sianelau Saesneg hefyd yn wynebu'r un problemau (gyda llawer mwy o arian ganddynt i wario ar ddatblygu a chynhyrchu rhaglenni o'r fath).

Canu'r Gloch ar Gyfresi

Gofynnwyd sut yr oedd y Sianel yn ystyried bod cyfres wedi chwythu ei phlwc (rhoddwyd *Porc Peis Bach* a *Pam fi Duw* fel esiamplau o raglenni a ddechreuodd yn dda ond wedi dirywio wrth i'r cyfresi fynd yn eu blaen). Atebodd Huw Eirug trwy dweud bod y cwestiwn yn ystyriaeth bwysig a roedd penderfynu pryd yr oedd cyfres wedi dod i'w diwedd naturiol yn rhan o waith comisiynwyr S4C. Er hynny, anghytunwyd ynglyn â'r cyfresi wedi'u henwi. Er enghraifft yn achos *Porc Peis Bach*, penderfynwyd i barhau gyda chyfres arall gan gydnabod

bod y prif gymeriad yn tyfu'n hyn - cryfder y gyfres oedd bod natur y comedi wedi newid i adlewyrchu hyn.

Diffodd Analog

Gofynnwyd pryd oedd darlledu analog yn debygol o ddod i ben. Atebodd Huw Jones fod y Llywodraeth wedi gosod y nod rhwng 2006 a 2010. Er hynny, roedd rhai nawr sôn am y flwyddyn 2014. Roedd Huw Jones o'r farn y byddai'n digwydd rhwng 2010 a 2014.

Diolchodd Cefin Campbell i'r gynulleidfa oll am fynychu'r noson agored ac am gyfrannu mewn ffordd mor wych. Yn ei dro, fe wnaeth aelod o'r gynulleidfa ddiolch i S4C am gynnal y fath gyfarfodydd ac yn arbennig am ddod i Aberystwyth i wrando ar, a thrafod gyda, gwylwyr yr ardal. Yr oedd y rhaglenni yr oedd S4C yn eu darlledu yn cael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi. Cafodd y geiriau hyn gymeradwyaeth gan weddill y gynulleidfa.

CYFARFOD BUSNES – 28 CHWEFROR 2003 - ABERYSTWYTH

Sain Ddisgrifio

Roedd swyddogion yn parhau i drafod gyda darlledwyr eraill eu hagwedd tuag at ddarparu gwasanaeth sain ddisgrifio heb fod y dechnoleg ar gael ei alluogi i wylwyr ei dderbyn.

Cynhadledd Plaid Lafur, Abertawe

Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiad gynhaliodd S4C yn y gynhadledd y noson gynt. Bu'r digwyddiad yn un llwyddiannus ac fe fu geiriau'r Ysgrifennydd Gwladol yn gefnogol i'r Sianel wrth gyflwyno'r Cadeirydd.

Cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Adroddwyd ar y cyfarfod a gafwyd gyda Tessa Jowell ar 13 Chwefror. Roedd y cyfarfod wedi rhoi cyfle i'r Cadeirydd esbonio i'r Ysgrifennydd Gwladol y goblygiadau oedd yn deillio o'r penderfyniad yn ystod y cylch gwariant diweddar i beidio cynnig arian ychwanegol i S4C. Esboniodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod yr Adran wedi ystyried y cais yn ofalus ond bod pwysau mawr wedi bod ar ei chyllideb ac ni fedrwyd symud tu hwnt i chwyddiant. Roedd angen meddwl nawr am y cylch gwariant cyhoeddus nesaf ymhen dwy flynedd oedd yn golygu y byddai angen i'r Sianel ffurfio achos trylwyr i'w gyflwyno i'r DCMS ymhen blwyddyn.

Gwobrau RTS

Cyfeiriwyd at y ffaith bod *Ar y Stryd a Byd Pws* wedi ei enwebu ar gyfer gwobrau RTS.

Apêl Elusen S4C

- (a) Gwahoddwyd Cefin Campbell, fel Cadeirydd ar yr Apêl, i adrodd ar y sefyllfa derfynol parthed yr ymgyrch i godi arian ar gyfer Shelter yn ystod 2002. Adroddodd taw'r swm wedi'i gasglu oedd £20,000. Nid oedd y swm yma'n cymharu mor dda yn erbyn y ffigwr o £250,000 a godwyd ar gyfer y British Heart Foundation y flwyddyn gynt ond roedd rhaid cydnabod bod y ffigwr hynny'n cynnwys arian yr oedd y BHF wedi codi'u hunain. Rhaid oedd cydnabod hefyd fod Shelter yn elusen dra gwahanol a bod Shelter eu hun yn fodlon iawn gyda'r arian a godwyd a gyda'r sylw yr oedd yr elusen wedi'i gael. Soniwyd hefyd bod yr Ambiwlans Awyr a CYD wedi derbyn cefnogaeth o safbwynt cynhyrchiad fideo ac yr oedd y rhain wedi'u gwerthfawrogi gan y ddwy elusen.
- (b) Wrth edrych ymlaen i'r apêl ar gyfer 2003, nodwyd y byddai arian yn cael ei godi dros Ty Hafan a Ty Gobaith. Gobeithiwyd y byddai yna gyfle i apelio at ddiddordebau cymunedau lleol eleni gydag un elusen wedi'i lleoli yn y gogledd a'r llall yn y de.

Adolygu Perfformiad

Ystyriodd yr Aelodau nifer o ddogfennau lle'r prif nod yn y cyfarfod hwn oedd i gyflwyno iddynt yr offerynnau yr oedd swyddogion nawr yn eu defnyddio wrth geisio sefydlu i ba raddau yr oedd rhaglenni wedi cyrraedd eu nod. Er bod rhai pwyntiau diddorol yn dechrau ymddangos esboniwyd ei bod hi'n rhy gynnar i ddod at unrhyw gasgliadau terfynol ynglyn â'r amserlen newydd.

Is-deitlo

Ystyriwyd adroddiad oedd yn cynnig argymhellion ar gyfer gwasanaeth isdeitlo 889. Y nod oedd i gynnig gwasanaeth cynhwysfawr Cymraeg gydag apêl eang fyddai o ddefnydd i ddysgwyr Cymraeg, rhai oedd yn ystyried eu Cymraeg yn ansicr, a phobl fyddar/trwm eu clyw. Roedd yr Aelodau yn fodlon gyda'r hyn a gynigiwyd ond gofynnwyd bod yna adolygiad mwy ffurfiol yn cael ei gynnal tu hwnt i'r panel monitro a gyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Cytunwyd y dylid trefnu adolygiad annibynnol ar ôl dwy flynedd.

Cynllun Corfforaethol 2002-04

Ystyriwyd papur oedd yn adrodd ar y sefyllfa derfynol ar berfformiad S4C yn ystod 2002 yn erbyn y targedau wedi'u gosod yn y Cynllun Corfforaethol 2002-04. Cytunwyd y dylid derbyn yr adolygiad oedd gerbron a'i gyhoeddi ar y we (wedi i'r ffigurau yn ymwneud ag arian ac oriau darlledu gael eu cadarnhau gan yr archwilyr).

Cynllun Corfforaethol 2003-05

Cyflwynwyd i'r Awdurdod ffurf derfynol Cynllun Corfforaethol 2003-05 oedd bellach yn cynnwys targedau ar gyfer ffigurau gwylio yn dilyn gwybodaeth wedi'i dderbyn oddi wrth

BARB ar gyfer 2002. Roedd hefyd yn adlewyrchu sylwadau'r DCMS. Nododd yr Aelodau y newidiadau i'r fersiwn o'r Cynllun a ystyriwyd ym mis Rhagfyr. Cytunwyd y dylid rhoi sêl bendith yr Awdurdod ar fersiwn terfynol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2003-05.

Nawdd

Ystyriodd yr Aelodau bapur oedd yn gofyn iddynt roi sêl bendith ar argymhellion ar gyfer nawdd. Nodwyd pe bai'r argymhellion hyn yn cael eu derbyn byddai'r gyllideb nawdd ar gyfer 2003 mwy neu lai wedi'i wario. Ar wahân i un cais, lle gofynnwyd am fwy o wybodaeth amdano, cytunwyd i'r argymhellion oedd gerbron.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 14 Chwefror 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr